

Cyngor Cymuned Betws y Coed
Cofnodion cyfarfod 11fed o Fedi 2023

Presenol – Ffiona Jones (Chair) Bedwyr ap Gwyn, Chris Jones, Janet Charlton, Cyng Liz Roberts, Caerwyn Roberts (Clerc) Haf Jones (Clerc dan hyfforddiant)

Ymddiheuriadau – Neil Pringle, Catherine Williams

Datgan diddordeb mewn eitem ar yr agenda – dim

1. Adroddiad y Swyddogion Datblygu Cymuned – trosolwg o waith hyd yma wedi gylchreded yn electroneg hefo'r agenda.

Cyflwynodd Anna Brown a Hazel Barclay eu gwaith sydd, dros y mis d'wetha', wedi canolbwyntio ar ddigwyddiadau cymunedol, yn trefnu Nadolig Betws.

Mae digwyddiadau yn uchel ar restr dymuniadau y gymuned yng Nghynllun Cymunedol Betws y Coed.

Mae cyfres o weithgareddau a digwyddiadau yn cael eu trefnu yn ystod mis Rhagfyr fydd hefyd yn corffori digwyddiadau Nadoligaidd traddodiadol a hirsefydlog ynghyd a chyflwyno rhai newydd.

Mae gwaith wedi dechrau ar wneud cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i geisio cyllid ar gyfer digwyddiadau Goleuo'r Goedwig, Nadolig Betws a nifer o ddigwyddiadau ar draws y flwyddyn nesa'.

Trafodwyd y cysyniad o noson Guto Ffowc yn Pentre Du ac fe'i cefnogwyd mewn egwyddor. Swyddogion Datblygu Cymuned i drafod hefo'r Gwasanaeth Tan a'r Clerc i wirio polisi yswiriant y Cyngor Cymuned.

Mae'r Cynghorwyr yn falch o'r cynnydd hyd yma ac cynigiwyd cefnogaeth hefo'r digwyddiadau.

Diolchwyd iddynt ac fe adawodd y ddwy y cyfarfod.

2. Cofnodion cyfarfod 10fed o Orffennaf - wedi'u cylchredeg yn electroneg hefo'r agenda ac wedi'w cymeradwyo.

Materion yn codi o'r cofnodion –

2.1 Materion Heddlu – dim cynrychiolydd o'r Heddlu yn bresenol.

2.2 Pont y Pair – Pont Droed – 3 dyfynbris wedi'w derbyn ar gyfer cwmpasu'r prosiect. Cytunwyd i symud ymlaen hefo'r dyfynbris isa' gan CBSC dyddiedig Mai 2023 o £5000 + TAW. Clerc i ofyn ydi'r pris yn dal yr un fath.

2.3 Tai Fforddiadwy – er gwaethaf pob ymdrech, mae cyfathrebu wedi dod i stop. Mae Cyng Liz Roberts wedi trefnu cyfarfod hefo Prif Weithredwr yn Swyddfa Cartrefi Conwy yn Ninbych ar y 26ain o Fedi.

- 2.4 Materion Parcio yn Bro Gethin, Pentre Du** – trafodwyd cynnig Cartrefi Conwy i gynnig darn o dir i'r Cyngor Cymuned ar gyfer creu maes parcio a phenderfynwyd y byddau'r prosiect o'r math yn rhy gostus a'r rhwymedigaethau i'r dyfodol yn rhywbeth na fyddau'r Cyngor yn fodlon ymrwymo iddynt. Cyng Liz Roberts 'r Clerc Newydd i ymweld a'r trigolion.
- 2.5 Tynnu llysdyfiant - Pont y Pair** – Darllenwyd ebost dyddiedig 29ain o Awst gan Arolygwr Henebion ac Archaeoleg Cadw Gogledd Cymru yn datgan y bydd yn cysylltu a Adran Strwythurau CBSC i godi pryderon y Cyngor Cymuned a gobeithio dod penderfyniad ar faterion cynnal a chadw parhaus. Adroddwyd gan Cyng Liz Roberts bod y Gwaith wedi'w dendro ond am resymau diffyg cylludeb mae'r Cyngor Sir yn wynebu dim ond gwaith diogelwch hanfodol sydd y cael eu wneud ar hyn o bryd.
- 2.6 Fan y Llan** – Edward Jones Rheolwr Stad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi dod i gysylltiad a dyddiad cyfarfod i'w drefnu pan y bydd yn Betws y Coed nesa'.
- 2.7 CP Betws y Coed FC, adnewyddu cegin** – Cysytwyd ac Un Llais Cymru am gyngor pellach ar symiau ariannol cyfraniadau o goffrau'r Cyngor Cymuned. Mae cyfle i glybiau chwaraeon geisio am arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a phenderfynwyd gadael i'r Clwb wneud cais.
- 2.8 Gwefan y Cyngor** - Bu i'r Clerc a'r Clerc Newydd gyfarfod a gwesteigr y wefan i drafod uwchraddio'r wefan bresenol ac ychwynegu at rhai gofynion e.e. digido system archebu'r neuadd a Cae Llan gan gynnwys calendar.

Costau fel a ganlyn:-

Ail-adeiladu'r wefan £600 (yn cynnwys lluniau drone)

2 awr o hyfforddiant i'r Clec i uwchlwytho dogfennau cofnodion, cyfrifon ayyb - £50

Cost fynyddol o gynnal y safle we - £50

Amcan amser i gwblhau'r gwaith ydi 4 wythnos.

Prynu 3 gliniadur i'r Clerc Newydd a'r ddau aelod o staff yn cynnwys Microsoft - £1222.00 yn cynnwys TAW i'w adenill.

Cost blynyddol o £16.79 gan Microsoft am barhad o Microsoft Office.

Derbyniwyd y costau a chyfarwyddo'r gwesteigr i fwrw'mlaen.

- 2.9 Neuadd Goffa/Archwiliad asbestos. Mynwent Erw Hedd pryder am le i'r dyfodol.** Adroddwyd gan y Swyddog CBSC a chyfrifoldeb am resymau staff ar wyliau y bod oedi ond y bydd datrysiad mor fuan a phosib.
- 2.10 Safle Ultimate Outdoors/JD Sports site-** Pryderon ac effaith weledol a diogelwch. Gwnaethpwyd cynnydd mewn datrys cysylltu gyda asiant perchennogion y safle gan Robin Millar AS a Cyng Liz Roberts. Cadwyd y gymuned mewn cysylltiad drwy ddiweddariad ar dudalen facebook y Cyngor Cymuned. Mae Asiant y safle wedi cysylltu a NMWTRA er budd trefnu rheolith traffic angenrheidiol ar gyfer gwenudd y gwaith o amnewid y byrddau tebyg at eu tebyg. Mynegwyd anfodlonrwydd gyda'r amnewid fel hyn gan y bydd wedi syrhtio i'r un lefel o adfeiliad mewn byr amser. Roedd y Cynghorwyr yn ffarfrio ffens ddiogelwch ddur ar gyfer esthetig a hirhoedledd. Gofynnwyd hefyd am gynydd y perchnogion i ddefnydd y safle i'r dyfodol. Cyng Liz Roberts am ymlid.

- 2.11 **Teithio Llesol – Pont Soldiwr** - Adran Strwythurau CBS, mewn partneriaeth hefo'r Cyngor Cymuned i drefnu cyfle ymgysylltu yn ystod mis Tachwedd ble fydd y cynlluniau a'r opsiynau ar gael i'r gymuned eu gweld a gwneud sylwadau.
- 2.12 **Ffordd yr Orsaf** – Yn dilyn cau'r man gollwng/codi teithwyr bysiau, mae pryder ynghylch diogelwch pobl yn dod oddiar y bws wrth toiledau cyhoeddus Cae Llan ac yn croesi'r ffordd i gyrraedd y siopau a'r diffyg bylchau o ganlyniad i'r rhes o focus blodau a biniau. Dim cynnydd mewn darpariaeth o le pwpasol a diogel gan Awdurdod Parc Eryri. Clerc i gysylltu a Rheolwr Eiddo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- 2.13 **Goleuadau Nadolig a Fir Tree Island** – ymholiadau wedi'w gwneud gyda arbenigwr coed a chontractwr gwaith gwaith tir am ddichonoldeb rhoi goleuadau ar y coed ar yr ynys. Mae'r ddau yn credu i bod hi'n bosib ond bydd rhaid cael cyfarfod ar y safle. Cysylltiad wedi'w wneud hefo Mega lighting am awgrym o oleuadau addas ond dim ymateb hyd yma. Clerc i ddilyn hyn i fyny hefo Mega Lighting.
- 2.14 **Rhaedr Ewynnol – cyflenwad dwr.** Gwnaeth y Clerc ymholiadau hefo Dwr Cymru am bosiblwydd o gysylltu a'r prif gyflenwad dwr a chost gwneud hynny. Mewn ymateb, gwnaethpwyd y Clerc yn ymwubodol mae'r pwynt cysylltu agosa' at y Rhaedr yw yn Bryn y Glo sydd 2 filltir i'r Gogledd o'r safle. Byddau holl gostau cysylltu ar draws y 2 filltir yn gost i'r Cyngor Cymuned, Penderfynnwyd y byddau costau o'r fath yn anfforddiadwy.
- 2.15 Bu i'r Clerc a'r Clerc newydd gyfarfod ac adeiladwr yn Rhaedr Ewynnol er diben dealt a fyddai posib uwchraddio'r system presenol drwy osod tanc a system goleuadau uv a fyddai'n datrys y broblem diffyg dwr yn ystod misoedd yr haf. Daethpwyd o hyd i'r beipen gyflenwad ond ddim y ffynhonell.
- 2.16 **Cyfoeth Naturiol Cymru- cau'r manau pasio** – Cyng Liz Roberts a'r Clerc i gyfarfod a'r Arweinydd Tim newydd i'r ardal.

3 Ceisiadau Cynllunio -

NP4/11/393B, Adeilad allanol – Craig Glanconwy, Betws y Coed

Dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned

NP4/11/T339D, rhoi paneli solar ar do Y Felin, Betws-y-Coed. LL24 0BB

Dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned

- 3.1.1 Gan bod nifer o Gynghorwyr newydd wedi'w apwyntio'n ddiweddar cytunwyd y byddau o fudd i'e Cynghorwyr a'r Clerc Newydd dderbyn hyfforddiant ar ymateb i ceisiadau cynllunio. Y Clerc i drefnu.

4 Materion ariannol- dosbarthwyd record o dderbyniadau a thaliadau ar gyfer misoedd Gorffennaf ac Awst er diben craffu. Cytunwyd bod popeth yn iawn.

- 4.1 Mandad banc- gyda ymddeoliad y Clerc yn agosau, cytunodd y Cynghorwyr i'r Clerc newydd gwblhau'r mandad ofynnol gan ychwanegu ei henw fel llofnodwr ac hefyd y Cadeirydd Ffiona Jones. Bydd Janet Charlton yn aros fel llofnodwr ac hefyd Caerwyn Roberts nes bydd y mandad wedi'w gymeradwyo gan HSBC.

5. Seddi gwag – 2 sedd wag a 3 mynegiant o ddiddordeddb wedi’w derbyn erbyn y dyddiad cau.

Sian Godbert
Steve Bayliss
Philipa Roberts

Cafwyd pleidlais gudd - Sian Godbert a Philipa Roberts yn cael eu cyfethol fel Cynghorywr Cymuned i Gyngor Cymuned Betws y Coed.

6. Mabwysiadu Rheolau sefydlog - Mae'r Clerc wedi paratoi fersiwn newydd o'r model reolau sefydlog er mwyn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. (Mai 2023). Mabwysiadwyd y Rheolau sefydlog.

7. Adroddiad gan y Clerc Newydd-

- Mae'r daith dysgu a chysgodu'r Clerc sy'n ymddeol yn parhau.
- Mae'r gwaith o ddigido'r Rheolau Seydlog wedi'w wneud a'r Rheoliadau Ariannol ar y gweill. Mae'n rhaid cael y ddwy ddogfen ar ffurf digidol er mwyn medri'w uwchlwytho ar gyfer gwneud ceisiadau am grant.
- Mae'r arolwg o anghenion a dymuniadau'r gymuned a gynhaliwyd yn hwyr yn 2022 hefyd wedi'w ddigido ac yn angenrheidiol ar fel tystiolaeth o angen ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, Cronfa Allweddol Cymuned a Lle.
- Rhannwyd pedwar prosiect posibl i'r Gronfa gyda'r Cynghorwyr:-
- Fan y Llan – Balchder yn ein cymuned/Gwneud gwahaniaeth gweladwy.
- Neuadd Goffa – ceisio am arian i wneud arolwg cyflwr allanol wedi'i gostio ac arolwg ymgysylltu cymunedol annibynnol ar gyfer defnydd i'r dyfodol.
- CTCC-Pont y Pair – amnewid camera ac uwchraddio'r wifi i alluogi recordio 24 awr. Gwnaed y Cynghorwyr yn ymwubodol pe y byddai'r cais yn llwyddianus a'r camera yn cael ei osod yna fe fydd cost cynnal a chadw blynyddol o £360.

Mae'r tri mater uchod wedi ymddangos ar yr agenda nifer o weithiau ac fe all y ffynhonell arian hon wireddu'r prosiectau.

- Rhaeadr Ewynnol – Mae angen buddsoddi mewn uwchraddio'r rhwystrau diogelwch a'r cyflenwad dwr, ynghyd a gwella arwyddion i gyrraedd y atyniad poblogaidd.
- CFFG -10% o arian cyfatebol yn ddymunol ond ddim yn hanfodol.

Mae'r ffenest ceisiadau yn fyr iawn gyda'r dyddiad cay ar y 22ain o Fedi. Cymerdwywyd gweud ceisiadau i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

8. Unrhyw fater arall

Parcio ar linellau melyn a'r peryglon traffig cysylltiedig. – gofyn i'r Swyddog Gorfodaeth Parcio i batrolio'r pentre'n rheolaidd.

Llysdyfiant wedi gofdyfu Ffordd Coed Cynhelir- adrodd i CNC

Cae Llan – asesu cyflwr y coed- aros am adroddiad gan Awdurdod Parc Eryri a Swyddog Coed CSBC.

9. Er gwybodaeth :-

- Ebst arall yn cwyno am gyflwr y cerbydau rheilffordd; yr ardal yn fler ac yn syrthio i ddadfeiliad. Ymatebwyd yn egluro bod y ardal yma mewn perchnogaeth breifat.
- Nol i'r Bws/1 Bws ticed, digwyddiad Trafnidiaeth Cymru, Ffordd yr Orsaf, Maes Parcio ar gyfer y siopau – 26ain o Fedi 11-1 o'r gloch.
- O fis Mawrth 2024 byd y gwasanaeth T10 rhwng Betws y Coed a Bangor sydd yn gwasanaethu Ogwen, yn rhedeg pob awr ar dydd Sadwr, Sul a Gwyliau Banc.
- Peth difrod gan farbaciws tafladwy ar fwrdd picnic yn ardal Pont y Pair.

10. **Dyddiad y cyfarfod nesa** – Nos Lun 9fed o Hydref am 7o'r gloch.

Llofnodwyd _____ Cadeirydd

Dyddiad _____